

EVANS, JOHN (1628 - 1700), ysgolfeistr a diwinydd Pwritanaidd

Enw: John Evans
Dyddiad geni: 1628
Dyddiad marw: 1700
Priod: Katherine Powell (née Gerard)
Plentyn: John Evans
Rhiant: Matthew Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr a diwinydd Pwritanaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn Great Sutton, gerllaw Llwydlo, mab Matthew Evans, offeiriad Penegoes, gerllaw Machynlleth. Cawsai Matthew Evans, a oedd yntau'n fab i un a fu'n rheithor yno o'i flaen, ei droi o'i fywoliaeth yn 1650 gan Gomisiynwyr Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Yr oedd y mab yn y cyfamser wedi ymaelodi yng Ngholeg Balliol, Rhydychen (6 Mawrth 1647), eithr fe'i trowyd allan o'r coleg gan yr Ymwelwyr Pwritanaidd â'r brifysgol ym mis Mai. Fe'i hordeiniwyd yn ddirgel ym mis Tachwedd yr un flwyddyn gan Roger Mainwaring, esgob Tyddewi, a oedd yntau wedi cael cymryd ei swydd fel esgob oddi arno. Newidiodd John Evans ei syniadau - er gofid i'w dad - ac fe'i dewiswyd, 23 Mawrth 1653, i ofalu am yr ysgol a sefydlasid gan y comisiynwyr yn y Bala, gyda chyflog o £35 a thrwydded i bregethu. Oblegid ei fod yn tueddu i feirniadu llywodraeth Cromwell - fe lofnododd 'Remonstrances' 1654 a 1655 - cafodd beth trafferth i gael y cyflog a oedd yn ddyledus iddo; yn 1656, fodd bynnag, gorchmynnodd Cyngor y Wladwriaeth fod cyflog dwy flynedd i'w dalu iddo, ac yn 1657 fe'i hetholwyd gan feiliaid a bwrdeisiaid Croesoswallt (ar arch Cromwell ei hunan) yn brifathro'r ysgol drefol yno - swydd y cawsai ei ragflaenydd ei droi allan ohoni oblegid na chydffurfiai. Eithr cafodd y rhagflaenydd ei swydd yn ôl yn 1660 ac ymunodd Evans gyda Rowland Nevett, y ficer Pwritanaidd a gollodd ei le adeg yr Adferiad, i weinidogaethu i'r Anghydfurfwyr a oedd yn addoli yno. Bu hefyd, gyda **Vavasor Powell**, yn gofalu am gynulliadau cyffelyb yn Llanfyllin a Llanfechain; oherwydd hyn cyhuddwyd ef yn 1669 o dan y 'Conventicle Act.' Dywed Palmer, *Nonconformists' Memorial*, 1775, ii, 645, ei fod hefyd yn fuguail eglwys yr Independiaid yn Wrecsam o 1668 ymlaen. Bu'n gyfeillgar iawn â **Vavasor Powell** a phan fu hwnnw farw (1670), ac wedi i'w wraig gyntaf ei hun farw, priododd weddw **Powell**.

O dan y 'Declaration of Indulgence' cafodd drwydded (Mai 1672) i bregethu i gynulleidfau'r Independiaid yn Wrecsam a gasglasai ynghyd gyntaf o dan **Morgan Llwyd**. Pan dddiddymwyd y 'Declaration' aeth Evans yn dlawd a gorfu iddo werthu rhan helaeth o'i lyfrgell a gweithredu fel athro teulu i blant rhai o foneddigion pwysig y cylch. Bu cefnogaeth y bobl hyn - yn enwedig Lady Eyton (gweddw Syr Kenrick Eyton, Eyton Isaf) - yn foddion i'w gadw rhag cael ei erlid. Yn 1681 gwnaeth **William Lloyd**, esgob Llanelwly, ymdrech gref i'w gael i gydymffurfio, gan ei herio i ddyfod i ddadleuon cyhoeddus; pan wrthododd cafodd ei ddirwyo a'i anfon o'r cylch. Parhaodd, fodd bynnag, i weinidogaethu i'w gynulleidfau; o 1689 hyd 1691 yr oedd y Presbyteriaid (a fu'n addoli ar wahân o dan y Declarasïwn Caniatâd) yn gyswllt â'r gynulleidfa. Pan ymadawodd y Presbyteriaid yn 1691 a ffurfio y 'New Meeting,' yr oedd cynulliad Evans yn cynnwys Independiaid a Bedyddwyr; yn ôl un adroddiad yr oedd yn tueddu fwy at y Bedyddwyr yn ei flynyddoedd diwethaf. A'i iechyd yn gwanhau a'i gof yn pallu bu raid iddo adael rhan helaeth o'i waith bugeiliol i gynorthwyyr.

Bu farw 19 Gorffennaf 1700 a chladdwyd ef ym mynwent yr Anghydfurfwyr yng Ngwrecsam. O'i ail wraig gadawodd fab, **John Evans**, ac o'i wraig gyntaf ferch a briododd Timothy Thomas, cyfailli **Matthew Henry**; daeth mab Timothy Thomas, o'r un enw a'i dad, yn weinidog Independiaid yn Pershore.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

T. Richards, (a) *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), (b) *Religious Developments in Wales, 1654-1662* (1923), (c) *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925), a (d) *Wales under the Indulgence*

A. N. Palmer, *A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'* (1888)

G. V. Price, *The Old Meeting at Wrexham* (Wrexham, d.d.)

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*, I, i, 470

M. Burrows, *The Register of the Visitors of the University of Oxford, 1647-1658* (1881), 101

Thomas Carlyle, *Oliver Cromwell's letters and speeches with elucidations* (New York 1849), 31 (2)

Transactions of the Shropshire Archaeological and Natural History Society, I, v, 58-9

N.L.W., *Llawysgrif Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 14

N.L.W., *Llawysgrif Rhual* 75

Archifau LIGC: NLW MS 11439D: Letters to Morgan Llwyd, &c. [1645]-1706 (26, 106)

Archifau LIGC: Plas Yolyn Estate Records and Manuscripts: Deeds and documents, 1671-1688: 106: Bond for the payment of money, 1686/7, Feb. 5

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733412

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). EVANS, JOHN (1628 - 1700), ysgolfeistr a diwinydd Piwritanaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 7 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/-EVAN-JOH-1628>

Diwylliant

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government